

Pecyn Dogfennau
PWYLLGOR PENODI B

DYDD MERCHER, 6 GORFFENNAF 2022

PRESENNOL Councillor J. Tremlett (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

H.A.L. Evans G.H. John A.C. Jones
D. Jones M. Palfreman D. Price

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

G. Davies R. James

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
J. Stuart, Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
A. Machin, Partner Busnes Arweiniol (Dysgu a Datblygu)
S. Dougherty, Ymgynghorydd Dylunio Trefniadaeth
H. Rowley, Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 2.00 - 4.45 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.C. Evans a L.D. Evans

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4YDD TACHWEDD 2021

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021 gan eu bod yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau

canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.

5. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR Y 10FED MEHEFIN 2022

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 10 Mehefin, 2022.

6. CAEL CYFLWYNIADAU A CHYFWELD Â'R YMGEISWYR SYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER Y SWYDD PENNAETH PLANT A THEULUOEDD A CHYNALIADWYEDD AC YSTYRIED PENODI

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai tri o'r chwe ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y tri ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

Cafodd y Pwyllgor adborth gan swyddogion mewn perthynas â'r broses recriwtio ac asesu a'i gasgliadau. Yn dilyn trafodaeth -

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi J. Coles yn Bennaeth Plant a Theuluoedd.

[Galwyd J. Coles yn ôl i'r cyfarfod, a dywedodd hi ei bod yn derbyn y swydd.]

CHAIR

DATE